# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

## Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Adrodd ar Adran 6 – Templed Adrodd ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned

***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6***

***Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***

***2022***

**Enw y Cyngor Tref neu Gymuned: Cyngor Cymuned Trefriw**

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**

Mae Cyngor Cymuned Trefriw yn gwasanaethu dwy ward wledig yn Sir Conwy: Trefriw a Llanrhychwyn (gyda phoblogaeth gyda'i gilydd o oddeutu 850). Mae ein harchebiant yn oddeutu £23mil y flwyddyn. Mae CCT yn gyfrifol am reoli neuadd bentref Trefriw, mynwent Trefriw, cae chwarae Trefriw, llain fach o dir ar Wood Bank (gelwir yn Ffordd Top yn lleol), a Llwybr 1 Trefriw (gyferbyn â Ffordd Gower). At hyn, mae CCT yn gyfrifol am drefnu gwaith cynnal a chadw llwybrau cerdded o ran Llwybrau Trefriw eraill o amgylch y pentref. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Adroddiad Gweithredu**

| Camau gweithredu i: | | Wedi eu monitro gan: |
|---|---|---|
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Rydym wedi sicrhau bod cyfleoedd i gynnal a chynyddu bioamrywiaeth yn cael eu dwyn i ystyriaeth fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a chaffael gwasanaethau / nwyddau fel sy'n briodol. Er enghraifft, mae cytundebau ar gyfer torri gwair ar dir o dan awdurdodaeth CCT yn pennu cyfnodau torri gwair ac uchder llafnau torri gwair i amddiffyn peillwyr; mae grantiau i grwpiau cymunedol perthnasol (e.e. i Glwb Garddio Trefriw am gynnal blychau blodau ein pentref) yn amodol ar hyrwyddo ac – os yn bosibl – gwella bioamrywiaeth. | Cyngor Llawn (gwneud penderfyniadau); Clerc (caffael nwyddau / gwasanaethau) |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Rydym wedi hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am bwysigrwydd a buddion bioamrywiaeth ac rydym yn cefnogi eraill gyda hyn e.e. cyhoeddusrwydd ynghylch 'priffyrdd i ddraenogod', Clwb Garddio Trefriw, Awyr Agored Trefriw, Cymuned Di-blastig Betws a'r Fro (Mae CCT yn aelod o grŵp llywio Cymuned Di-blastig ac fe wnaethom gynnal y | Cyngor Llawn |

| | | |
|---|---|---|
| | stondin wybodaeth yn Sioe Gynnyrch Trefriw ym mis Medi 2025). | |
| -diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd | Mae amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau am dir sydd o dan awdurdodaeth CCT, ac rydym yn eu diogelu'n ddiofyn. Mae unrhyw weithredu arfaethedig hanfodol a allai beri risg i brif rywogaethau / cynefinoedd yn destun craffu ychwanegol (gan gynnwys gan arbenigwyr fel sy'n briodol e.e. torri coed wedi'u heintio) i sicrhau bod yr holl gamau wedi'u cyflawni i atal neu liniaru deilliant o'r fath. Ym mis Mawrth 2025, bu i CCT gydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i gydlynu gwaith plannu coed yw newydd a gwrychoedd terfyn cymysg yn estyniad y fynwent i hybu gwell bioamrywiaeth. | |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae CCT wedi achub ar bob cyfle i adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol gwydn ar dir o dan ein hawdurdodaeth ni drwy:<br>- cynnal a chadw'r tir ar adegau priodol. E.e. i beidio ag amharu ar adar sy'n nythu neu anifeiliaid eraill ar adegau allweddol o'r flwyddyn<br>- cynnal a chadw / datblygu'r fynwent i ddenu mwy o amrywiaeth o bryfed, adar ac anifeiliaid<br>- adolygu cytundebau torri gwair / cynnal a chadw'r tir i sicrhau eu bod nhw'n helpu i hybu bioamrywiaeth (e.e. amddiffyn peillwyr, gwrychoedd ac ati.)<br>- grantiau i grwpiau cymunedol perthnasol yn amodol ar gynnal / gwella bioamrywiaeth<br>Rydym hefyd wedi rhannu gwybodaeth gyda phreswylwyr ynghylch mentrau gan gyrff trydydd parti ynghylch y camau gallan nhw eu cymryd ar eu heiddo nhw – e.e. creu priffyrdd i ddraenogod, adeiladu blychau nythu i wenoliaid ac ati. | |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. | Mae CCT wedi parhau i drefnu digwyddiadau codi sbwriel yn y pentref dwywaith y flwyddyn i gefnogi ein | Cyngor Llawn |

| | | |
|---|---|---|
| defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | mentrau Cymuned Di-blastig a Cadwch Gymru'n Daclus lleol. Rydym hefyd wedi adrodd am rywogaethau ymledol / llygrwyr tir a dŵr i'r corff perthnasol a chymryd camau i gael gwared ar goed wedi'u heintio. At hyn, rydym wedi newid i ddefnyddio cynnyrch glanhau y gellir eu hail-lenwi ar gyfer ein neuadd bentref lle'n bosibl. | |
| -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | Mae CCT wedi rhannu gwybodaeth am lygredd sbwriel gydag ein grŵp Cymuned Di-blastig a'r prif awdurdod i nodi mannau mwyaf problemus a gweithredu lle'n bosibl (e.e. yn y cyfnod adrodd hwn rydym wedi cydweithio gyda CBSC i ail-osod / symud rhai biniau baw cŵn a biniau sbwriel cyffredinol yn y pentref i geisio lleihau'r holl sbwriel). | |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | Fel aelod o grŵp llywio Cymuned Di-blastig, mae CCT wedi cefnogi agenda'r Gymuned ac wedi hyrwyddo'i negeseuon a syniadau ar gyfer lleihau plastig untro i breswylwyr, busnesau lleol, ysgolion a mudiadau. | Cyngor Llawn |

**Arolwg o ddyletswydd Adran 6**

- **Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?**
- Mae ein hymdrechion i ystyried ein harferion rheoli tir o ran hybu bioamrywiaeth wedi gweithio'n dda, ac rydym yn falch o helpu arwain ein Cymuned Di-blastig lleol. Fodd bynnag, nid oes gennym awdurdodaeth dros lawer iawn o dir yn ein cymuned ac felly nid ydym yn meddu ar y grym i benderfynu pryd caiff gwrychoedd lleol eu torri er enghraifft – byddai angen ymwybyddiaeth a gweithredu gan dirfeddianwyr lleol nad oes gennym ni fel cyngor cymuned lawer o ddylanwad arnyn nhw.
- Gan fynd rhagddi i'r cyfnod adrodd nesaf byddwn yn dylunio ac yn creu gardd goffa yn ein mynwent. Rydym yn bwriadu ei ddefnyddio fel cyfle pellach i hybu bioamrywiaeth leol drwy blannu priodol ac ati a byddwn yn derbyn cyngor arbenigol am hyn.
- **Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?**

- Mae CCT yn llunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth blynyddol y mae'r cyngor yn ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn i olrhain cynnydd a chymryd camau unioni os oes risg o fethu â chyflawni targedau / camau gweithredu.